



RHYBUDD CYHOEDDUS

Cyngor Gwynedd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Adrannau 18A, 18B, 18C, 18D and 18E ac Atodlen A1)

Rheoliadau Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio a Safleoedd Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006

Yn unol â gofynion adran 18C(1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Gwynedd yn adolygu rhanbarthau pleidleisio a lleoedd pleidleisio ar gyfer eu defnyddio mewn perthynas ag etholiadau seneddol a gynhelir yn etholaethau:

Arfon Dwyfor Meirionnydd

Bydd yr adolygiad yn cychwyn ar 21 Mehefin 2019. Mae'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer y ddwy etholaeth wedi cyflwyno manylion am leoliad y gorsafoedd pleidleisio presennol yn y rhanbarthau pleidleisio. Manylion ar gael yn yr Atodlen.

Gofynnir am sylwadau ar y trefniadau presennol gan etholwyr oddi fewn yr etholaethau ynghyd â phartïon eraill â diddordeb, gan gynnwys rhai sydd ag arbenigedd mewn mynediad i bobl sydd ag unrhyw fath o anabledd.

Dylid cyflwyno sylwadau ar y trefniadau cyfredol ar bapur i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH erbyn 23 Awst 2019. Os yn berthnasol, dylai sylwadau gynnwys manylion am leoliadau arall gellir eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Bydd manylion am y sylwadau a dderbynnir ar gael i'w harchwilio.

Iwan G D Evans
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

18 Mehefin 2019